

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

11 Mehefin 2018

Dear Lynne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Mai, ynghylch craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n ateb fel Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb dros broses y Gyllideb.

Tryloywder y Gyllideb

Yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth hon i dryloywder a bod yn agored, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd i fireinio cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth am y Gyllideb er mwyn sicrhau craffu effeithiol ar gynigion y Llywodraeth.

Mae'r gwaith hwn yn cydnabod cymhlethdod yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar amrywiol adegau yn ystod cylch y Gyllideb, a'r amrywiol ddibenion y mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer.

Llynedd, mewn cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau cyllidol newydd y Llywodraeth - gan gynnwys pwerau trethu a benthg ychwanegol - cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar broses newydd ar gyfer y Gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys protocol yn gosod proses dau gam, sydd wedi arwain at gyhoeddi mwy o fanylion a gwybodaeth ategol yn ystod dau gam proses y gyllideb.

Fel rhan o'r protocol, cytunwyd i gyhoeddi gwybodaeth ar lefel BEL (Linell Wariant yn y Gyllideb) - lefel fanylach na'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn parhau i adolygu cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth y Gyllideb, ac fe fyddaf yn ystyried y dystiolaeth a'r adborth o'r pwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Fel rhan o'r gwelliannau parhaus i broses y Gyllideb, rydym wedi edrych mewn ffordd gynyddol soffistigedig ar asesiadau effaith drwy gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol wrth ochr y Gyllideb ddrafft.

Wrth weithio mewn ffordd integredig rydym yn parhau i adlewyrchu'r effaith ar hawliau plant yn ogystal ag anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae asesiadau o effaith y cynlluniau gwario manwl yn rhan o ail gam proses y Gyllideb. Gan mai Cyllideb 2018-19 oedd y gyntaf i ni ei chyhoeddi mewn dau gam, rydym yn cydnabod bod modd i ni wneud mwy i wella asesiadau effaith o ddatblygu polisïau i broses y Gyllideb.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi argymhell y dylai cyllidebau drafft yn y dyfodol ddarparu esboniad o'r ffordd y gwnaethpwyd penderfyniadau. Mae'r argymhelliad hwn yn gyson â phrosiect Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf.

Ymysg yr amcanion ar gyfer y fframwaith mae darparu dibenion clir a diamwys ar gyfer asesiadau effaith ar draws amrywiol ymyraethau'r llywodraeth; lleihau cymhlethdodau a defnyddio asesiadau effaith mewn ffordd gymesur wrth edrych ar ymyriadau. Bydd ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar ansawdd y ddealltwriaeth, y dystiolaeth a'r crebwyll ac integreiddio proses asesiadau effaith gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.



Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.
Cabinet Secretary for Finance